

Lleoliadau Cyfeillgar i Ddementia Canllaw



Flintshire Town and Villages
Tref a phentrefl Sir y Fflint

Yn gweithio i fad yrr
Dementia
Gyfeillgar




Working to become
Dementia
Friendly



Lleoliadau Cyfeillgar i Ddementia - Canllaw

Sut i chwyddo i mewn ac allan o'r map

- Gallwch ddefnyddio'r botwm sgrolio ar eich llygoden i symud i mewn ac allan neu;
- Gallwch ddefnyddio'r botymau + a - ar gornel chwith ar waelod y map



Sut i symud o amgylch y map

- Chwith-gliciwch eich llygoden a'i ddal i lawr
- Symudwch eich llygoden a bydd y map yn dilyn
- I stopio symud, rhyddhewch y clic llygoden

Sut i weld y map mewn lliw

- Cliciwch yr eicon hwn sydd ar y gornel dde uchaf y sgrin
- Byddwch yn gweld y man ble mae'n dweud 'Base maps', cliciwch y saeth i lawr i gael yr opsiynau canlynol



- Dewiswch Flintshire


- Bydd y map yn newid i edrych fel hyn




- I'w newid yn ôl i ddu a gwyn, dilynwch yr un camau ond dewiswch Flintshire Greyscale

Sut i chwilio am gyfeiriad

1. Cliciwch y blwch ar y gornel chwith ar y top sy'n dweud 'Postal Code, Name or Address (wedi'i amlygu gan y blwch oren isod)
2. Teipiwch eich cyfeiriad. Gall hyn fod yn gyfeiriad llawn, cod post neu enw stryd



3. Cliciwch ar y cyfeiriad o'r rhestr sy'n ymddangos o dan y blwch
4. Bydd hwn yn mynd â chi i leoliad yr eiddo ar y map



Caffis Cof a Busnesau, Sefydliadau ac Ysgolion Cyfeillgar i Dementia

Mae pob caffi cof wedi'i gynrychioli *Forget Me Not* ar y map.



Mae pob sefydliad, busnes ac ysgol sy'n gyfeillgar i Dementia wedi'i gynrychioli gan bwynt pin.





Pan fyddwch yn agor y map byddwch yn gweld lleoliadau'r caffis cof a busnesau, sefydliadau ac ysgolion ledled Sir y Fflint. Cliciwch ar Forget Me Not neu bwynt pin i weld yr wybodaeth am y lleoliad.


Bydd yr wybodaeth yn ymddangos i lawr ochr chwith y sgrin.



Sut i ddod o hyd i'ch Caffi Cof neu Sefydliad, Busnes neu Ysgol sy'n Gyfeillgar i Dementia agosaf


1. Chwiliwch am eich cyfeiriad (mae camau ar sut i wneud hyn ar dudalen 3 y dogfen ganllawiau)
2. Pan fyddwch wedi dod o hyd iddo, gallwch naill ai;
 - a. Chwyddo allan o'r map i weld lle mae'r *Forget Me Not* neu bwynt pin neu;
 - b. Defnyddiwch y nodwedd Search Nearby
3. I ddefnyddio'r nodwedd hon, mae arnoch angen;
 - a. Cliciwch ar y Search Nearby ar ochr chwith y sgrîn
 - b. Dewiswch beth ydych yn chwilio amdano e.e. Caffi Cof neu Sefydliadau, Busnesau neu Ysgolion
 - c. Yna cliciwch ar yr opsiwn sy'n ymddangos oddi tanodd





- d. Bydd hyn wedyn yn eich chwyddo allan o'r map a newid ychydig o'r delweddau
- e. Mae'r eicon pinc yn dangos lle mae eich cyfeiriad 
- f. Bydd enw'r caffi cof, sefydliadau, busnes neu ysgol yn ymddangos lawr ar ochr chwith ynghyd â gwybodaeth am ba mor bell ydynt o'ch cyfeiriad

Sut i ddod o hyd i Safle Bws

1. Cliciwch yr eicon hwn sydd ar y gornel dde uchaf y sgrin
2. Cliciwch ar y sgwâr bach wrth ymyl Bus Stops i roi tic ynddo




3. Bydd eiconau bach gwyrdd yn ymddangos ar y map i nodi ble mae safleoedd bws 
4. Os ydych yn clicio ar un o'r eiconau, bydd yn dangos enw'r safle bws ar ochr chwith o'r sgrîn







Gellir dilyn y camau uchod i ddewis yr opsiynau gwybodaeth sy'n cael eu dangos pan fyddwch yn clicio ar yr eicon yng ngham 1. Er enghraifft, bydd deinlydd yn ymddangos fel dot melyn ar y map pan fydd y sgwâr wrth ei ymyl gyda thic.

Defnyddio Google Street View

1. Dod o hyd i gyfeiriad, caffi cof, sefydliad, busnes neu ysgol Cyfeillgar i Dementia drwy ddefnyddio'r nodwedd chwilio (mae camau ar sut i wneud hyn ar dudalen 3 y canllawiau hyn)
2. Cliciwch yr eicon hwn ar y gornel dde uchaf 
3. Cliciwch ar y sgwâr sydd wrth ymyl Google Street View i roi tic ynddo
4. Bydd llinellau glas yn ymddangos ar y map. Bydd hyn yn dangos lle allwch ddefnyddio Google Street View
5. I weld y ddelwedd street view, cliciwch ar y llinell las
6. Bydd delwedd o'r stryd yn ymddangos mewn bocs bychan ar ochr chwith o'r sgrin
7. I weld y ddelwedd mewn sgrin lawn, cliciwch y botwm a amlygir gan y blwch oren



8. I ddychwelyd i'r map, cliciwch Esc ar eich bysellfwrdd
9. I ddiffodd yr opsiwn Google Street View, cliciwch ar y sgwâr bach i dynnu'r tic.



**Os gewch unrhyw broblemau i ddefnyddio'r map hwn, cysylltwch â'r Tîm
Gwasanaethau Cwsmeriaid drwy'r manylion isod:**

Rhif Ffôn: 01352 703020

E-bost: customerservices@flintshire.gov.uk